

Y Gronfa Cymorth Dewisol

Ffurflen Gais



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TALIADAU CYMORTH MEWN ARGYFWNG A THALIADAU CYMORTH UNIGOL

Pwy all wneud cais am Daliad Cymorth mewn Argyfwng?

Gallech fod yn gymwys i gael Taliad Cymorth mewn Argyfwng os yw'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Rydych yn 16 oed a throsodd
- Rydych yn byw yng Nghymru
- Nid oes gennych unrhyw arian i dalu am eich anghenion uniongyrchol chi neu'ch teulu, ar ôl argyfwng neu drychineb
- Rydych yn credu y bydd niwed neu risg ddifrifol i'ch iechyd neu'ch diogelwch chi neu'ch teulu oni chewch y taliad
- Nid oes gennych unrhyw ffordd arall o gael yr help sydd ei angen arnoch gan nad oes gennych unrhyw arian na ffynonellau cymorth eraill

Pwy all wneud cais am Daliad Cymorth Unigol?

Er mwyn bod yn gymwys i gael Taliad Cymorth Unigol rhaid i chi, neu'r person rydych yn gofalu amdano fod yn byw yng Nghymru ac yn cael y budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn neu Gredyd Pensiwn Gwarantedig

Mae'n bosibl y gallwch hefyd gael Taliad Cymorth Unigol os ydych yn debygol o gael un o'r budd-daliadau hyn pan fyddwch yn gadael gofal, fel yr ysbyty, neu gartref gofal neu garchar.

Sut y byddwn yn penderfynu a fyddwn yn rhoi grant i chi

Bydd swyddog penderfyniadau yn ystyried y wybodaeth ar eich ffurflen gais cyn penderfynu a allwn roi grant. Dim ond swm cyfyngedig o arian sydd ar gael ar gyfer taliadau ac eitemau felly ni allwn roi grant yn mhob achos.

Bydd y wybodaeth a roddwch i ni ar y ffurflen yn ein helpu i benderfynu:

- A ydych yn gymwys i gael taliad neu eitemau, ac os felly
- A allwn roi grant o'r arian sydd gennym yn y gyllideb a faint y dylid ei roi.

Mae angen i chi roi cymaint o wybodaeth â phosibl am y ffordd y byddai grant yn eich helpu, naill ai i ymdopi ag argyfwng neu i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Ni ddefnyddir y wybodaeth hon i benderfynu p'un a gellir gwneud taliad grant.

Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth y gofynnwn amdani ar y ffurflen, ni fyddwn yn gallu rhoi grant i chi. Byddwn yn cadarnhau rhywfaint o'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni, er enghraifft y budd-daliadau rydych yn eu cael, gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Efallai y byddwn yn siarad â phobl eraill am eich cais, er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol neu feddygon. Dim ond os mai hon yw'r unig ffordd y gallwch gael yr help sydd ei angen arnoch y byddwn yn rhoi grant neu eitemau i chi. Efallai y cewch lai nag y gwnaethoch ofyn amdano.

Diben Taliad Cymorth mewn Argyfwng

Bwriedir i Daliadau Cymorth mewn Argyfwng helpu gyda chostau hanfodol ar ôl argyfwng neu os bu trychineb fel tân neu lifogydd yn eich cartref.

Pennir lefel y cymorth y gellid ei gynnig i chi ar sail yr anghenion a gyflwynir yn eich cais. Rhaid i chi brofi yn eich cais y bydd eich iechyd neu'ch lles chi neu'ch teulu yn y fantol oni chewch yr help rydych yn gofyn amdano.

Pryd na ddylech wneud cais am Daliad Cymorth mewn Argyfwng

Ni ddylech wneud cais am Daliad Cymorth mewn Argyfwng o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae gennych arian neu gymorth arall y gallwch gael gafael arno er mwyn prynu'r pethau sydd eu hangen arnoch.
- Rydych eisoes wedi cael tri Thaliad Cymorth mewn Argyfwng yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Rydych wedi gwneud cais am Daliad Cymorth mewn Argyfwng ar gyfer yr un pethau o fewn y 28 diwrnod diwethaf ac nid oes dim wedi newid.

Diben Taliad Cymorth Unigol

Bwriedir i Daliadau Cymorth Unigol eich helpu chi, neu rywun rydych yn gofalu amdano, i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl yn y gymuned yn hytrach na symud i gartref neu barhau i aros mewn sefydliad. Gallai hyn fod oherwydd eu bod:

- Yn gadael sefydliad o fewn y 6 wythnos nesaf ar ôl byw yno am 3 mis neu fwy yn olynol, neu eu bod yn byw yno'n aml neu'n rheolaidd oherwydd anabledd neu amgylchiadau
- Yn awyddus i aros yn y gymuned yn hytrach na gorfod symud i sefydliad
- Yn cymryd rhan mewn rhaglen adsefydlu wedi'i chynllunio ar ôl ffordd ansefydlog o fyw
- Yn deulu sy'n wynebu pwysau eithriadol, er enghraifft, o ganlyniad i brofi trais domestig neu anghenion cynyddol aelod o'r teulu yn sgil anabledd, salwch cronig, neu ddamwain.
- Yn gofalu am garcharor neu droseddwr ifanc sydd wedi'i ryddhau ar drwydded dros dro.
- Angen help gyda threuliau teithio untro neu fyrdymor pan ystyrir eu bod yn hanfodol er mwyn eich helpu i barhau i fyw'n annibynnol yn eich gymuned.

Pryd na ddylech wneud cais am Daliad Cymorth Unigol

Ni ddylech wneud cais am Daliad Cymorth Unigol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Rydych mewn gofal, ni fyddwch yn gadael gofal o fewn 6 wythnos neu nid ydych wedi bod mewn gofal ers 3 mis neu fwy
- Rydych wedi gwneud cais am Daliad Cymorth Unigol ar gyfer yr un pethau o fewn y 28 diwrnod diwethaf ac nid oes dim wedi newid.

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael Taliad Cymorth Unigol, neu gellir lleihau y swm a gewch os bydd gennych chi neu'ch partner gyfalaf dros £500 (neu £1,000 os ydych chi neu'ch partner o oedran pensiynadwy). Os ydych yn garcharor gall unrhyw grant gael ei leihau yn ôl gwerth unrhyw grant neu warant ryddhau a roddwyd.

LLENWI'R FFURFLEN HON

Beth y bydd ei angen arnoch i lenwi'r ffurflen hon:

- Eich rhif Yswiriant Gwladol
- Manylion am arian a gewch
- Manylion cyswllt ar gyfer pobl sy'n eich helpu y mae'n bosibl y byddwn am gysylltu â hwy
- Gwybodaeth i brofi pwy ydych
- Dogfennau eraill sy'n rhoi gwybodaeth am eich sefyllfa, fel rhif digwyddiad yr heddlu os ydych wedi rhoi gwybod am drosedd.

Os bydd angen help arnoch i lenwi'r ffurflen

Y person sy'n gwneud y cais ddylai lenwi'r ffurflen hon. Os bydd angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, gallwch ofyn i rywun arall fel ffrind neu berthynas.

Bydd angen i chi lofnodi'r datganiad yn Adran 6 o hyd.

Gwneud cais ar ran rhywun arall

Os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall na all lenwi'r ffurflen, dylech gwblhau'r rhan berthnasol o Adran 6 a gofyn iddo lofnodi'r adran sy'n eich awdurdodi i wneud cais ar ei ran. Yna gyda chi y byddwn yn delio yn y dyfodol. Dylech gwblhau'r ffurflen gan ddefnyddio manylion y person rydych yn gweithredu ar ei ran.

Y ffurflen

Mae'r ffurflen hon wedi'i rhannu'n chwe rhan:

- | | |
|----------|---|
| Adran 1. | Gwybodaeth gyffredinol amdanoch chi a'ch teulu |
| Adran 2. | Arian sydd gennych ac rydych yn ei gael |
| Adran 3. | Pa fath o grant rydych yn gwneud cais amdano a pham?
3a - Taliad mewn Trychineb
3b - Taliad mewn Argyfwng
3c - Taliad i'ch helpu i fyw yn y gymuned yn hytrach na bod mewn gofal |
| Adran 4. | Gwybodaeth arall a fydd yn ein helpu i wneud penderfyniad |
| Adran 5. | Mae lle yma i chi ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol |
| Adran 6. | Datganiad a beth sy'n digwydd nesaf |

Cwblhewch y ffurflen mewn inc du. Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch y ddalen wag ar ddiwedd y ffurflen hon.

Derbyniadau

Os cewch Daliad Cymorth mewn Argyfwng neu Daliad Cymorth Unigol, efallai y gofynnir i chi ddarparu derbynebau i ddangos eich bod wedi prynu'r eitemau y dyfarnwyd y grant ar eu cyfer. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw eich derbynebau.

Adolygiad

Os na fyddwch yn cytuno â'r penderfyniad a wnaed ar eich cais, gallwch ofyn am adolygiad. Mae manylion cyswllt ar ddiwedd y ffurflen hon.

(Noder: Dim ond ar ffurf copi caled y gellir cyflwyno'r ffurflen hon)

Adran 1: Amdanoch Chi

Rhowch rywfaint o wybodaeth i ni amdanoch chi, eich partner os oes un gennych, a phobl eraill sy'n byw yn eich cartref.

	Chi	Eich partner
Teitl		
Cyfenw		
Cyfenwau eraill rydych wedi eu defnyddio		
Pob enw arall		
Eich cyfeiriad ar hyn o bryd		
Os ydych wedi byw yn y cyfeiriad hwn am lai na 3 mis, rhowch eich cyfeiriad blaenorol		
Cyfeiriad E-bost		
Dyddiad geni		
Rhyw	Gwryw <input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/>	Gwryw <input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/>
Rhif Yswiriant Gwladol		
Efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi dros y ffôn neu drwy neges destun. Rhowch rif ffôn symudol y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â chi		
Rhowch unrhyw rif ffôn arall y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â chi		
Os byddwn yn gofyn i chi drafod eich cais ymhellach. Beth yw'r ffordd orau o gysylltu â chi?		
Ble rydych yn byw Rhowch fanylion i ni am ble rydych yn byw. Pa fath o eiddo yw hwn?		
	Chi	Eich Partner
Cartref sy'n eiddo i chi, yn cynnwys gyda morgais	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/> <input type="radio"/>
Wedi ei rentu gan yr awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/> <input type="radio"/>
Eiddo rhent - heb ei ddodrefnu	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/> <input type="radio"/>

Eiddo rhent – wedi ei ddodrefnu'n rhannol	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Eiddo rhent – wedi ei ddodrefnu'n llawn	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Hostel	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gwely a Brecwast	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Cartref preswyl/gofal	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ysbyty	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Byw gyda'ch rhieni	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Byw gyda ffrindiau/perthnasau	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Llety'r lluoedd arfog	<input type="checkbox"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Arall - rhowch fanylion			
Os ydych yn rhentu eich cartref, rhowch fanylion y landlord. Enw'r landlord:			
Efallai y byddwn yn cysylltu â'r landlord os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom.			
Os ydych mewn carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc rhowch rif y carchar:			
Beth yw enw'r sefydliad?			
<p>Pobl eraill sy'n byw gyda chi Dywedwch wrthym am unrhyw blant sy'n byw gyda chi ac rydych yn eu cefnogi. Ystyrir bod plentyn yn 16 oed neu'n iau neu'n 17-19 oed ac yn dal mewn addysg llawn amser neu'n rhan o hawliad budd-dal ei riant. Mae hyn yn cynnwys babanod nad ydynt wedi cael eu geni eto felly, os oes rhywun yn feichiog, rhowch fanylion y baban.</p>			
Enw(au)	Dyddiad geni/dyddia d disgwylidig	Ei berthynas â chi	Ticiwch y blwch hwn os ydych yn derbyn Budd-dal Plant ar gyfer y person hwn
			<input type="checkbox"/>
			<input type="checkbox"/>
			<input type="checkbox"/>
			<input type="checkbox"/>
			<input type="checkbox"/>



Parhewch ar y ddalen wag yn Adran 5, os bydd angen mwy o le arnoch.

Dywedwch wrthym am unrhyw un arall sy'n byw gyda chi.

Enw(au)	Dyddiad Geni	Ei berthynas â chi

Parhewch ar y ddalen wag yn Adran 5, os bydd angen mwy o le arnoch.

Adran 2. Arian rydych yn ei gael neu y gallwch gael gafael arno.

Dywedwch wrthym am unrhyw arian rydych chi neu'ch partner yn ei gael yn rheolaidd. Gall hyn gynnwys budd-daliadau neu hawliadau, pensiynau, credydau treth, cyflogau a thaliadau cynhaliaeth.

Arian 1 Math o arian a gewch?	Faint rydych yn ei gael a pha mor aml?
	£ bob
Pwy sy'n cael hwn?	Pryd fyddwch yn cael eich taliad nesaf?
Arian 2 Math o arian a gewch?	Faint rydych yn ei gael a pha mor aml?
	£ bob
Pwy sy'n cael hwn?	Pryd fyddwch yn cael eich taliad nesaf?
Arian 3 Math o arian a gewch?	Faint rydych yn ei gael a pha mor aml?
	£ bob
Pwy sy'n cael hwn?	Pryd fyddwch yn cael eich taliad nesaf?
Arian 4 Math o arian a gewch?	Faint rydych yn ei gael a pha mor aml?

	£ bob	
Pwy sy'n cael hwn?	Pryd fyddwch yn cael eich taliad nesaf?	
Arian 5 Math o arian a gewch?	Faint rydych yn ei gael a pha mor aml?	
	£ bob	
Pwy sy'n cael hwn?	Pryd fyddwch yn cael eich taliad nesaf?	
Parhewch ar y ddalen wag o dan Adran 5, os bydd angen mwy o le arnoch.		
Dywedwch wrthym am unrhyw gynilion neu unrhyw gyfalaf arall sydd gennych chi neu'ch partner. Gall cynilion effeithio ar y swm y gallwn ei dalu i chi.		
A oes gennych chi neu'ch partner unrhyw arian?	Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes <input type="checkbox"/> Rhowch fanylion
Dywedwch wrthym faint yn union ac arian pwy ydyw:		
A oes gennych chi neu'ch partner unrhyw gynilion? Gall hyn fod yn arian mewn cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, cyfrifon undebau credyd, bondiau premiwm neu gyfranddaliadau.	Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes <input type="checkbox"/> Rhowch fanylion
Dywedwch wrthym ble y caiff yr arian ei gadw ac arian pwy ydyw.		
A oes unrhyw fan arall y gallech gael arian ohono?	Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes <input type="checkbox"/> Rhowch fanylion

Dywedwch wrthym am hyn	
------------------------	--

Arian y mae'n rhaid i chi ei dalu allan

A oes rhaid i chi neu'ch partner dalu unrhyw arian allan yn rheolaidd am dreuliau neu ddyledion?	Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes <input type="checkbox"/> Rhowch fanylion isod
I bwy rydych yn talu'r arian?	Faint rydych yn ei dalu a pha mor aml?	

Parhewch ar y ddalen wag o dan Adran 5, os bydd angen mwy o le arnoch.	

Adran 3. Pa grant rydych yn gwneud cais amdano a pham?

Llenwch yr adran sydd fwyaf addas ar gyfer eich sefyllfa.

<p>A ydych yn gwneud cais am Daliad oherwydd trychineb?</p> <p>Digwyddiad o anffawd fawr neu sydyn yw trychineb, sydd fel arfer yn achosi difrod sylweddol i eiddo personol neu eiddo preswyl, neu sy'n arwain at ddinistrio neu golli eiddo personol neu eiddo preswyl. Byddai enghreifftiau'n cynnwys tân neu lifogydd.</p>	<p>Nac ydw <input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/></p> <p>Os ydych, ewch i Adran 3a</p>
<p>A ydych yn gwneud cais am Daliad oherwydd argyfwng?</p> <p>Digwyddiad sydyn, brys, annisgwyl yw argyfwng sydd fel arfer yn galw am gymryd camau ar unwaith, er enghraifft os ydych wedi colli eich arian i gyd.</p>	<p>Nac ydw <input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/></p> <p>Os ydych, ewch i Adran 3b</p>
<p>A ydych yn gwneud cais am Daliad i'ch helpu i fyw yn y gymuned yn hytrach na symud i gartref gofal neu aros mewn gofal?</p> <p>Gwneir y taliad hwn o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen help arnoch i ymgartrefu yn y gymuned ar ôl bod mewn gofal. • Mae angen help arnoch i aros yn y gymuned yn hytrach na gorfod symud i gartref gofal. • Mae angen help arnoch i ymgartrefu yn y gymuned fel rhan o raglen adsefydlu wedi'i chynllunio gyda sefydliad. • Mae angen help arnoch i ysgafnhau'r pwysau eithriadol ar eich teulu, er enghraifft, am fod y teulu wedi chwalu. • Mae angen help arnoch i ofalu am garcharor neu droseddwr ifanc sydd wedi'i ryddhau ar drwydded dros dro. • Mae angen help arnoch gyda threuliau teithio untro neu fyrdymor yr ystyrir eu bod yn hanfodol er mwyn eich helpu i fyw'n annibynnol. 	<p>Nac ydw <input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/></p> <p>Os ydych, ewch i Adran 3c</p>

3a. Taliad mewn Trychineb.

Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi dioddef trychineb. Dim ond os oes risg ddifrifol i'ch iechyd neu'ch lles chi neu'ch teulu y gallwn wneud taliad. Gallwch wneud cais am dreuliau byw ac eitemau hanfodol ar gyfer eich cartref sydd eu hangen arnoch o ganlyniad i'r drychineb.

Os ydych wedi dioddef trychineb, dywedwch wrthym beth ddigwyddodd a phryd, beth gafodd ei ddifrodi, a pha wasanaethau brys ddaeth i ddelio â'r drychineb.

A oes gennych yswiriant cartref i gwmpasu'r drychineb hon?

Nac oes

Oes

Os Oes, a ydych yn bwriadu gwneud hawliad, neu a ydych eisoes wedi gwneud hynny?

Nac ydw

Ydw

Faint o arian a gawsoch gan y cwmni yswiriant a faint sy'n weddill? Os ydych wedi gwario'r arian, nodwch ar beth y gwnaethoch ei wario?

Beth yw'r risg i'ch iechyd neu'ch lles chi neu'ch teulu?

Dywedwch wrthym am y pethau rydych yn gwneud cais amdanynt a faint sydd ei angen arnoch; gall hyn gynnwys costau ar gyfer byw bob dydd, fel bwyd, er mwyn prynu eitemau newydd yn lle rhai a ddifrodwyd, fel oergell

Ewch i Adran 4, oni bai eich bod yn gwneud cais am Daliad o dan 3c isod.

3b. Taliad mewn Argyfwng.

Cwblhewch yr adran hon os ydych yn gwneud cais oherwydd argyfwng a all achosi difrod neu risg ddifrifol i'ch iechyd neu'ch lles chi neu'ch teulu.

Os ydych yn gwneud cais oherwydd argyfwng, dim ond am dreuliau byw fel bwyd a chostau teithio y gallwch wneud cais, ac nid eitemau ar gyfer eich cartref.

Nodwch beth yw'r argyfwng a beth yw'r risg ddifrifol i'ch iechyd a'ch lles chi neu'ch teulu?

Os ydych wedi colli arian, nodwch faint sydd ar goll:

£

Os oes arian wedi'i ddwyn, nodwch faint sydd ar goll:

£

A ydych wedi rhoi gwybod i'r heddlu?

Nac
ydw

Ydw

Rhowch rif y digwyddiad:

Nodwch faint o fwyd sydd gennych ar ôl a pha mor hir y bydd hwn yn para:

A ydych yn talu am eich nwy neu'ch trydan drwy fesurydd rhagdal?

Nac
ydw

Ydw

Faint o greddyd sy'n weddill ar y mesurydd?

£

Pa mor hir y bydd yn para?

Beth yw'r risg i'ch iechyd neu'ch lles chi neu'ch teulu?

Dywedwch wrthym am y costau byw rydych yn gwneud cais amdanynt a faint sydd ei angen arnoch. Gall hyn gynnwys eitemau fel trydan a threuliau teithio. Os oes angen bwyd arnoch, nodwch am sawl diwrnod y mae ei angen arnoch. Ni allwch wneud cais am eitemau i'r cartref os ydych yn gwneud cais am daliad oherwydd argyfwng. Defnyddiwch linell newydd ar gyfer pob eitem.

--

--

--

--

--

Ewch i Adran 4, oni bai eich bod yn gwneud cais am daliad o dan 3c.

3c. Taliad i'ch helpu i fyw yn y gymuned yn hytrach na bod mewn gofal. Mae hyn yn cynnwys os byddwch:

- Yn gadael sefydliad o fewn y 6 wythnos nesaf ar ôl byw yno am 3 mis neu fwy yn olynol, neu eu bod yn byw yno'n aml neu'n rholaidd oherwydd anabledd neu amgylchiadau.
- Yn awyddus i aros yn y gymuned yn hytrach na gorfod symud i sefydliad
- Yn cymryd rhan mewn rhaglen adsefydlu wedi'i chynllunio ar ôl ffordd ansefydlog o fyw
- Yn deulu sy'n wynebu pwysau eithriadol, er enghraifft, o ganlyniad i brofi trais domestig neu anghenion cynyddol aelod o'r teulu yn sgil anabledd, salwch cronig, neu ddamwain
- Yn gofalu am garcharor neu droseddwr ifanc sydd wedi'i ryddhau ar drwydded dros dro.
- Angen help gyda threuliau teithio untro neu fyrdymor pan ystyrir eu bod yn hanfodol er mwyn eich helpu i barhau i fyw'n annibynnol yn eich cymuned

A ydych yn bwriadu symud?	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Ydw <input type="checkbox"/> Dywedwch wrthym am hyn.
Rhowch y cyfeiriad rydych yn symud iddo:		
Os ydych yn symud, ticiwch y math o gartref rydych yn bwriadu symud iddo:	Cartref sy'n eiddo i chi, yn cynnwys gyda morgais	<input type="checkbox"/>
	Wedi ei rentu gan yr awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>
	Eiddo rhent - heb ei ddodrefnu	<input type="checkbox"/>
	Eiddo rhent – wedi ei ddodrefnu'n rhannol	<input type="checkbox"/>
	Eiddo rhent – wedi ei ddodrefnu'n llawn	<input type="checkbox"/>
	Arall	<input type="checkbox"/>
Os ydych wedi ticio arall, rhowch fanylion:		
Os ydych yn rhentu'r eiddo, rhowch fanylion y landlord. Enw'r landlord:		

Efallai y byddwn yn cysylltu â'r landlord os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom.

Eich amgylchiadau

Dywedwch wrthym pam bod angen help arnoch i ymgartrefu neu i aros yn y gymuned:

A ydych yn dilyn rhaglen gymorth i'ch helpu i adsefydlu yn y gymuned ar ôl dilyn ffordd ansefydlog o fyw?

Nac ydw

Ydw

Pam rydych yn dilyn y rhaglen? Er enghraifft, ai oherwydd eich bod wedi cael problemau o ran bod yn gaeth i rywbeth, neu a ydych yn dilyn rhaglen gymorth, er enghraifft, am eich bod wedi bod mewn gofal neu wedi bod yn ddigartref?

Beth mae'r rhaglen gymorth yn ei gynnwys?

--

Llenwch yr adran hon os ydych chi neu'ch teulu yn wynebu pwysau eithriadol ac nad oes gennych yr adnoddau i dalu'r costau hyn.

Beth yw'r pwysau eithriadol a wynebir gennych chi neu'ch teulu?

--

Beth yw'r effaith arnoch chi a/neu'ch teulu?

--

Llenwch yr adran hon os oes angen help arnoch i ofalu am garcharor neu droseddwr ifanc sydd wedi'i ryddhau ar drwydded dros dro.

Enw:	
Dyddiad Geni:	
Ei berthynas â chi:	
Rhif y carcharor:	
Enw'r sefydliad:	
Beth yw dyddiad dechrau'r cyfnod hwn?	
Pryd y daw'r cyfnod hwn i ben?	

Dywedwch wrthym am y pethau rydych yn gwneud cais amdanynt.

Gall hyn gynnwys eitemau fel gwely, dillad gwely, dillad neu eitemau ar gyfer y gegin fel popty. Gall hefyd gynnwys gwasanaethau fel costau symud dodrefn neu gostau teithio. Os cewch daliad, efallai y gofynnir i chi ddarparu derbynebaw i ddangos eich bod wedi prynu'r eitemau y dyfarwyd y taliad ar eu cyfer. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw derbynebaw.

Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl am y ffordd y bydd y pethau hyn yn eich helpu.

- Os oes angen eitem newydd arnoch yn lle hen un, dywedwch wrthym beth sydd o'i le ar yr un sydd gennych a pham bod angen un newydd arnoch yn ei lle
- Os oes angen rhywbeth arnoch am y tro cyntaf, dywedwch wrthym pam bod ei angen arnoch. Dywedwch wrthym yn union beth sydd ei angen arnoch, er enghraifft, os oes angen dillad arnoch, pa fath o ddillad sydd eu hangen arnoch
- Os oes angen rhywbeth arnoch â nodweddion arbennig neu addasiadau, dywedwch wrthym beth yw'r nodweddion hyn a pham bod eu hangen arnoch. Os bydd angen mwy o le arnoch i ddweud wrthym beth sydd ei angen arnoch, parhewch ar y ddalen wag o dan Adran 5.

Dywedwch wrthym am unrhyw sefydliad sy'n eich helpu naill ai i ymgartrefu yn y gymuned neu i aros yn y gymuned.

Rhowch enw'r sefydliad sy'n eich helpu:	
Sut mae'n eich helpu?	

Adran 4. Gwybodaeth arall a fydd yn ein helpu i wneud penderfyniad.

Wrth benderfynu dyfarnu taliad ai peidio, rydym yn ystyried faint o wahaniaeth y bydd taliad yn ei wneud i'r person sy'n gwneud cais neu'r person sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn golygu bod angen i ni wybod am unrhyw broblemau, anawsterau neu amgylchiadau arbennig sydd gennych chi neu'r bobl sy'n byw gyda chi. Mae angen i ni hefyd wybod am newidiadau yn eich amgylchiadau. Atebwch y cwestiynau isod, gan ddweud wrthym am bethau sy'n effeithio arnoch, sut maent wedi effeithio arnoch a pha help neu driniaeth rydych wedi'u cael. Dywedwch wrthym hefyd a fu'n rhaid i chi wario arian ychwanegol oherwydd y problemau hyn.

Beth fydd yn digwydd os na chewch daliad?

Dywedwch wrthym os oes gennych chi neu rywun a enwir yn y cais broblemau iechyd fel salwch cronig neu derfynol, anabledd er enghraifft byddardod neu ddallineb, neu unrhyw gyflwr meddygol:

Dywedwch wrthym os oes gennych chi neu rywun a enwir yn y cais gyflyrau iechyd meddwl:

A oes unrhyw reswm pam y byddai angen math arbennig o'r eitem rydych wedi gofyn amdani, er enghraifft a oes angen addasu'r pethau rydych wedi gofyn amdanynt oherwydd anabledd?

Nac oes Oes Rhowch fanylion:

Dywedwch wrthym os oes gennych chi neu rywun a enwir yn y cais anawsterau dysgu neu namau corfforol:


Dywedwch wrthym os oes gennych chi neu rywun a enwir yn y cais broblemau o ran bod yn gaeth i rywbeth neu gamddefnyddio sylweddu:

Dywedwch wrthym os oes gennych chi neu rywun a enwir yn y cais broblemau oherwydd oedran, er enghraifft problemau symudedd neu angen help i edrych ar ôl eu hunain:

Dywedwch wrthym os bu newidiadau sylweddol yn eich amgylchiadau chi neu rywun a enwir yn y cais, er enghraifft, colli swydd, troi allan neu adfeddiannu neu adael y Lluoedd Arfog:

Adran 5: Gwybodaeth Ychwanegol

Defnyddiwch y lle hwn i ddweud wrthym am unrhyw beth arall y credwch fod angen i ni wybod amdano nad ydych wedi ei nodi eisoes ar y ffurflen. Gallai'r rhain fod yn bethau fel problemau teuluol, amodau byw gwael neu ymdopi ar ôl trychineb. Dywedwch wrthym am unrhyw beth sy'n ei gwneud yn anarferol o anodd i chi ymdopi â'ch sefyllfa:



Adran 6. Datganiad a beth sy'n digwydd nesaf.

Os byddwn yn penderfynu rhoi grant, gallwn dalu grant i chi neu roi naill ai gerdyn siop neu'r eitemau sydd eu hangen arnoch i chi. Byddwn yn cysylltu â chi i ddweud wrthyf sut y caiff dyfarniad ei wneud.

Y cyfrif rydych am i ni ei ddefnyddio

Os byddwn yn talu arian parod, efallai y bydd angen i ni gael manylion eich cyfrif banc. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cwblhau POB blwch yn gywir gan gynnwys cofrestrif neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes un gennych.

Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni, efallai y caiff eich taliad ei oedi neu gallech gollu arian. Gallwch weld manylion y cyfrif ar eich cerdyn debyd neu gyfriflenni banc. Os nad ydych yn siŵr am y manylion, gofynnwch i'r banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall. Gallwch ddefnyddio cyfrif yn eich enw chi neu gyfrif ar y cyd.

Os nad oes gennych gyfrif, ac nad ydych yn bwriadu agor un, ticiwch y blwch a byddwn yn cysylltu â chi i drafod y ffordd orau o wneud taliad.

Os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig. Os hoffech i ni dalu'r arian i mewn i gyfrif undeb credyd, rhaid i chi ddarparu manylion y cyfrif undeb credyd. Bydd eich undeb credyd yn gallu eich helpu gyda hyn.

Manylion y cyfrif

Enw deiliad y cyfrif:

Enw llawn y banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall:

Cod Didoli:

Rhif y cyfrif:

Cofrestrif neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu:

Os nad oes gennych gyfrif ac nad ydych yn bwriadu agor un, ticiwch yma:

Os nad oes gennych gyfrif banc, gellir gwneud taliad drwy'r rhwydwaith PayPoint. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi roi eich rhif ffôn symudol fel y gellir anfon cod unigryw atoch y gellir wedyn ei gyfnewid am arian parod yn eich siop PayPoint leol. Mae 24,000 o fannau PayPoint mewn siopau papurau newydd, siopau cyfleustra, archfarchnadoedd, garejys a siopau diodydd ledled y DU. Mae'r rhan fwyaf ar agor am oriau hir, a llawer ohonynt saith diwrnod yr wythnos.

Er mwyn dod o hyd i'ch siopau PayPoint agosaf, ewch i www.paypoint.co.uk/customers a rhowch eich cod post yn yr adnodd chwilio ar ochr chwith uchaf y dudalen neu ffoniwch Gwasanaeth Cwsmeriaid PayPoint ar 08457 600633.

Cadarnhewch eich rhif ffôn symudol:

Os nad oes gennych ffôn symudol, gallwch roi rhif ffôn amgen, er enghraifft rif ffôn aelod o'r teulu neu weithiwr cynnal.

Rhif ffôn symudol amgen:

Rhif pwy yw hwn?

Beth yw ei berthynas â chi?

Datganiad

Darllenwch y datganiad yn ofalus a gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ddeall cyn llofnodi a dyddio'r ffurflen. Ni allwn wneud penderfyniad am eich cais oni fyddwch wedi llofnodi'r ffurflen. Hyd yn oes os mai rhywun arall sydd wedi llenwi'r ffurflen ar eich rhan, rhaid i chi ei llofnodi os gallwch wneud hynny. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall beth mae wedi'i ysgrifennu cyn i chi lofnodi'r datganiad. Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth anghywir.

Gallwn wneud ymholiadau am y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi'r cais ac i atal twyll. Os cewch ddyfarniad o dan y Gronfa Cymorth Dewisol drwy roi manylion anghywir neu beidio a rhoi'r manylion llawn i ni neu roi gwybodaeth anghywir gellir eich erlyn.

Darllenwch yr holl bwyntiau isod yn ofalus a gwnewch yn siŵr eich bod yn eu deall cyn llofnodi a dyddio'r ffurflen.

- Dyma fy nghais am ddyfarniad o dan y Gronfa Cymorth Dewisol
- Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn
- Byddaf yn hysbysu'r Gronfa ar unwaith os bydd unrhyw newid yn fy amgylchiadau a all effeithio ar fy nghais neu ei ganlyniad
- Rwy'n datgan, os dyfernir grant i mi, y byddaf yn ei wario ar yr eitemau y'i dyfarnwyd ar eu cyfer ac y gellir gofyn i mi ddarparu derbynebaw i gadarnhau hyn
- Deallaf y gall Llywodraeth Cymru gadarnhau'r wybodaeth a roddais â ffynonellau eraill
- Deallaf y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth ac y gall ei rhannu â sefydliadau eraill yn y Llywodraeth yn unol â'r gyfraith.

Derbyniaf y datganiad uchod.
Llofnod:

Dyddiad:

Printiwch eich enw:

Os mai rhywun arall ar wahân i'r person sy'n gwneud cais sydd wedi llenwi'r ffurflen hon.

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall na all lofnodi drosto ef ei hun, cwblhewch yr adran hon. Nid oes angen i chi gwblhau'r adran hon os ydych wedi helpu rhywun i lenwi'r ffurflen ond ei fod yn ei llofnodi.

Printiwch enw'r person a gwblhaodd y ffurflen:

Cyfeiriad cyswllt:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Beth yw eich perthynas â'r ymgeisydd?

Rhowch y rheswm pam nad oedd modd i'r ymgeisydd gwblhau'r ffurflen:

Gofynnwch i'r ymgeisydd lofnodi'r adran hon er mwyn rhoi'r awdurdod i chi wneud cais ar ei ran.

Awdurdodaf drwy hyn y person a enwir uchod i wneud cais am Gronfa Cymorth Dewisol ar fy rhan. Hoffem iddo gael pob gohebiaeth am y cais.

Llofnodwyd:

Dylech gwblhau gweddill y ffurflen gan ddefnyddio manylion y person rydych yn llenwi'r ffurflen gais ar ei ran. Byddwn yn anfon pob gohebiaeth atoch chi.

Beth i'w wneud nawr

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ateb pob cwestiwn ac wedi rhoi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani
- Nodwch eich llythrennau blaen wrth ymyl unrhyw newidiadau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llofnodi'r ffurflen

Anfonwch eich ffurflen gais i:
Y Gronfa Cymorth Dewisol
PO Box 2377
Wreccsam
LL11 0LG

Amseroedd prosesu

Os ydych yn gwneud cais am Daliad Cymorth mewn Argyfwng, byddwn yn prosesu'r cais o fewn 24 awr i'w dderbyn. Os ydych yn gwneud cais am Daliad Cymorth Unigol, byddwn yn prosesu'r cais o fewn 10 diwrnod gwaith i'w dderbyn.
Cewch lythyr yn dweud wrthy ch a fyddwch yn cael grant ai peidio. Os yw eich cais yn un brys, byddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn i roi gwybod i chi.

Beth i'w wneud os byddwch yn anghytuno â'n penderfyniad

Os na fyddwch yn fodlon â'r penderfyniad ar eich cais, gallwch ofyn i ni ei ailystyried a chadarnhau ein bod wedi gwneud y penderfyniad cywir. Rhaid i chi ysgrifennu atom o fewn 20 diwrnod gwaith i'r penderfyniad a dweud wrthym pam eich bod am gael adolygiad.

Cwestiynau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Hoffem i chi ateb y cwestiynau hyn er mwyn ein helpu, ond nid ydynt yn rhan o'ch cais felly nid oes rhaid i chi wneud hynny.

Os byddwch yn eu hateb, ni fyddwn yn defnyddio'r atebion i unrhyw un o'r cwestiynau hyn wrth benderfynu a fyddwn yn rhoi grant i chi ai peidio.

Rydym am ddeall pwy sy'n gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn i ni allu sicrhau nad yw grwpiau penodol o dan anfantais.

Byddai'n ddefnyddiol os gallech dicio'r blychau isod sydd fwyaf perthnasol i chi:

Pa grefydd, enwad neu gorff crefyddol rydych yn perthyn iddi/iddo?

Dim crefydd Cristnogol Bwdhaidd Hindŵaidd
Iddewig Mwslimaidd Sikh

Arall (nodwch):

Beth yw eich grŵp ethnig?

Cymreig / Seisnig / Albanaid / Gwyddelig o Ogledd Iwerddon / Prydeinig	<input type="checkbox"/>	Indiaidd	<input type="checkbox"/>
Gwyddelig	<input type="checkbox"/>	Pacistanaidd	<input type="checkbox"/>
Sipsiwn / Teithiwr	<input type="checkbox"/>	Tsieineaidd	<input type="checkbox"/>
Gwyn a Du Caribïaidd	<input type="checkbox"/>	Affricanaidd	<input type="checkbox"/>
Gwyn a Du Affricanaidd	<input type="checkbox"/>	Caribïaidd	<input type="checkbox"/>
Gwyn ac Asiaidd	<input type="checkbox"/>	Arabaid	<input type="checkbox"/>

Arall (nodwch):

Beth yw eich statws priodasol?

Sengl Priod Wedi gwahanu Mewn partneriaeth o'r un rhyw gofrestredig
Gweddw Wedi ysgaru Cydfyw

I ba ystod oedran rydych yn perthyn?

16-24 25-39 40-54 55-60 70+

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Heterorywiol/Strêt Hoyw/Lesbiaidd
Byddai'n well gennyf beidio â dweud Deurywiol
Arall (nodwch):

A ydych wedi eich cofrestru'n
anabl?

Nac ydw

Ydw